

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg Ionawr 2020

Presennol- Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Dyfed Jones, Siân Godbert, Caerwyn Roberts, Clerk.

Ymddiheuriadau –Janet Charlton, Neil Pringle, Barbara Drake, Nick Corney, Cyng Elisabeth Roberts.
Datgan diddordeb –Dim datganiad

Cofnodion – Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 9fed Ragfyr 2019

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair.

Dywedodd y clercc fod cyfarfod ar y safle yn cael ei drefnu.

[1.2] Rheolaeth Cae Llan

Penderfynwyd gohirio'r mater hyd i gyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror

[1.3] Siop Sglodion/Sbwriel

Dywedodd y clercc fod y Cyng. Elisabeth Roberts mewn cysylltiad gydag adran yr amgylchedd y Cyngor Sir ynglŷn a'r mater.

[1.4] Gwelliannau/Mynwent Erw Hedd

Nodwyd bod Cyngor BS Conwy yn bwriadu trefnu amserlen ar gyfer y gwaith.

[1.5] Cyngor BS Conwy Gwasanaethau Cynaliadwy

Eglurodd y clercc fod cyfarfod pellach wedi ei drefnu ar gyfer dydd Mercher 5ed Chwefror 2020, gyda Mr Steven Teale Cyngor BS Conwy.

[1.6] Lleoliad i'r Sgouts

Nodwyd atebiad oddiwrth yr Ystâd Gwydyr i ymholiad am ddarn o dir neu adeilad gwag ar gyfer lleoliad i'r sgouts. Deallwyd yn siomedig nad oedd yr Ystâd yn medru cynorthwyo ar hyn o bryd.

[1.7] Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus

Cyfeiriodd y clercc bod y Cyngor Sir wedi cytuno i adael yr arwyddion yn rhybuddio ynglŷn ar is-ddeddf yn Pont-y-Pair hyd i ddiwedd y cyfnod rhybudd yn 2021

Y brif Agenda

[1.8] Materion Cynllunio

[a] Defnyddio'r Gwesty presennol i ddarparu bwyd poeth i'w gludo allan [danfon i gartrefi'n unig] Y Fagabond, Tŷ Fesey, Betws-y-Coed.

[b] Codi Garej a Gweithdy, Glyndŵr, Pentre' Du, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ddau gais uchod.

[1.9] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Rhagfyr 2019

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Rhagfyr 2019

[c] Adolygiad o'r gyllideb. Cymeradwywyd adolygiad o'r gyllideb i ddiwedd Rhagfyr 2019.

[2] Pris Mynediad i'r Rhaeadr Ewynnol

Penderfynwyd codi'r pris mynediad i'r ieuanc o dan oedran 14 o £0.75 i £1.00.

[2.1] Cafnau Planhigion Pentre' Du

Gan fod anhawster ynglŷn â chynhالياeth y cafnau, penderfynwyd gostwng y lefel i un cafn. Y clerc i gysylltu gyda Mrs Fiona Jones ynglŷn â chynhالياeth yn y dyfodol.

[2.2] Elusen Ambiwylans Awyr Cymru

Penderfynwyd gwneud cyfraniad o £200.00.

[2.3] Unllais Cymru

Nodwyd y cynhelir cyfarfod rhanbarthol Cyngor Sir Conwy/Sir Ddinbych yn Neuadd y Dref Dinbych nos Fercher 29ain Ionawr 2020 am 7.00 y.h.

Cadeirydd_____